**Ymchwiliadau gwyddoniaeth cynradd**
https://rsc.li/2WOQxmc

# Potel wrth-ddisgyrchiant

Primary Science Teaching Trust

Royal Society of Chemistry

# Potel wrth-ddisgyrchiant

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**

Edrych ar bwysedd aer a sut mae'n gallu atal gwrthrychau rhag syrthio.





# Amcanion dysgu

## Dealltwriaeth

- Rydw i’n deall fod gronynnau o aer yn creu grymoedd nad ydyn ni’n sylwi arnyn nhw fel arfer.
- Rydw i’n deall fod aer o’n cwmpas ym mhobman ac yn creu pwysedd i bob cyfeiriad.
- Rydw i’n gallu egluro beth yw pwysedd aer.
- Rydw i’n deall bod pwysedd aer yn gallu goresgyn effeithiau disgyrchiant ac yn gallu atal gwrthrychau rhag syrthio.

## Sgiliau ymholi:

- Rydw i’n gallu rhagfynegi, a gwneud sylwadau a chymhariaethau.



# Geirfa ddefnyddiol

- **Grym:** gwthio, tynnu, neu wthio a thynnu sy'n digwydd pryd bynnag mae gwrthrychau (solidau, hylifau neu nwyon) yn cwrdd â'i gilydd. Mae grym yn gallu gwneud i wrthrych gyflymu, arafu neu newid cyfeiriad. Mae grymoedd sy'n 'gytbwys' yn dileu ei gilydd ac nid oes unrhyw symudiad.





- **Pwysedd:** mesur o rym dros arwynebedd. Mae grym ar arwynebedd mawr yn creu llai o bwysedd na'r un grym ar arwynebedd llawer llai.





# Geirfa ddefnyddiol

- **Disgyrchiant:** y grym sy'n tynnu gwrthrych i lawr tuag at ganol y Ddaear.



- **Arwynebedd:** y gofod sy'n cael ei ddefnyddio gan siâp gwastad neu wyneb gwrthrych.



# Alli di egluro beth sy'n digwydd yn y lluniau hyn?

















## Paru a rhannu



# Felly, beth sy'n mynd ymlaen yma?




## Mae'r grymoedd yn GYTBWYS

# Dull







1. Tywallta ddŵr i mewn i'r gwydr.
2. Gosoda ddarn o garden dros agoriad y gwydr.
3. Gan gadw cledr un llaw ar y gwydr, tro'r gwydr ar ben i lawr dros yr hambwrdd.
4. Tynna dy law i ffwrdd.

**Alli di egluro beth sy'n digwydd?**
**Mae'n amser paru a rhannu unwaith eto!**



# Felly, beth sy’n cysylltu hwn



# gyda hwn?



Beth alli di ei weld yn digwydd ym mhob llun?

Pa wahaniaethau wyt ti’n eu gweld?

Pa rymoedd sy’n gweithredu ar y cerdyn?

Alli di ddangos yr holl leoedd maen nhw’n gweithredu?

## Ceisia arbrofi gyda meintiau gwahanol o ddŵr yn y gwydr

Ydi hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth?

Alli di egluro dy arsylwadau?




# Gwerthusiad

Sut wyt ti'n teimlo am ein **hamcanion dysgu** heddiw?

- Rydw i'n deall pwysedd aer a'i fod o'n cwmpas ym mhob man.
- Rydw i'n deall bod pwysedd aer yn gwthio i fyny yn gallu bod yn fwy na'r disgyrchiant sy'n tynnu i lawr.
- Rydw i'n deall bod pwysedd aer yn gallu atal gwrthrychau rhag syrthio.

Os wyt ti'n teimlo'n hyderus, dangosa 5 bys i'r athro, neu dangosa 1 os wyt ti'n teimlo bod angen i ti gael sgwrs arall i egluro'r wers.





# Cydnabyddiaeth

Sleidiau 2, 7, 8 a 9: delweddau © Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol
Sleidiau 3 a 5: ffynhonnell y delweddau pixabay.com (nid oes angen priodoli)
Sleid 6: delwedd 1 © Retouch man / Shutterstock; delwedd 2 © Master1305 / Shutterstock; delwedd 3 © Cobalt S-Elinoi / Shutterstock; ffynhonnell pob delwedd arall pixabay.com (nid oes angen priodoli)
Sleid 10: delwedd © Prostock-studiol/Shutterstock